colegsirgâr
colegceredigion

DODD PARTNERS
— BOARD & EXECUTIVE SEARCH —




www.csgcc.ac.uk

# Prif Weithredwr / Pennaeth
## Pecyn i Ymgeiswyr

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

COLEG SIR GÂR A CHOLEG CEREDIGION

**ysbrydoli** dysgwyr

cyflawni **potensial**

ennill **rhagoriaeth**

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Croeso | 04 |
| Ynglŷn â'r coleg | 05 |
| Ein Gweledigaeth | 07 |
| Ein Gwerthoedd | 08 |
| Cipolwg | 09 |
| Profiad Dysgwyr | 10 |
| Diben y Rôl | 11 |
| Manyleb Swydd | 12 |
| Manyleb yr Unigolyn | 15 |
| Sut i Wneud Cais | 17 |




# CROESO

**Diolch am eich diddordeb yn swydd Pennaeth/Prif Weithredwr Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion. Rydym wrth ein bodd eich bod yn ystyried ymuno â'n sefydliad uchelgeisiol a blaengar ar adeg mor gyffrous. Mae eich penderfyniad i ystyried y cyfle hwn yn adlewyrchu ymrwymiad a rennir i ragoriaeth addysgol, effaith gymunedol, ac arloesedd strategol. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr amser a'r gofal rydych chi'n buddsoddi yn eich cais ac edrychwn ymlaen at ddysgu mwy am yr arbenigedd a'r weledigaeth y gallech chi eu cynnig i'n dysgwyr, ein staff, a'n coleg ac fel rhan o grŵp ehangach Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS).**

Mae ein Coleg yn anelu at fod yn sefydliad deinamig, sy'n canolbwyntio ar y dysgwyr ac sy'n rhoi llwyddiant a datblygiad personol y dysgwyr wrth wraidd popeth a wnawn.

Rydym wedi ymrwymo i ysgogi cynnydd dysgwyr trwy gefnogaeth ac arweiniad personol, gan greu cymuned ddysgu gynhwysol a hygyrch lle gall pob unigolyn ffynnu. Byddwn ni yn meithrin amgylchedd diogel a saff, gan sicrhau bod myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ar eu taith addysgol.

Gydag ymrwymiad i arferion addysgu a dysgu eithriadol, byddwn yn ymdrechu i gyrraedd y safonau a'r canlyniadau gorau Byddwn yn dathlu ac yn hyrwyddo iaith, treftadaeth a diwylliant Cymru, gan gyfoethogi bywydau ein dysgwyr a'n staff. Bydd lles pawb yn ein cymuned yn ffocws craidd, gan ddarparu awyrgylch cefnogol sy'n meithrin twf personol ac iechyd meddwl.

Fel arloeswr digidol, byddwn yn mynd i'r afael â thechnolegau arloesol, gan baratoi ein dysgwyr ar gyfer y dyfodol a chreu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol. Byddwn yn meithrin diwylliant o chwilfrydedd, gan annog ein staff a'n myfyrwyr i fod yn ddysgwyr gydol oes mewn tirwedd addysgol sy'n datblygu'n gyson. Bydd ein gweithlu yn perfformio'n dda ac yn cael ei ysgogi gan ymrwymiad a rennir i ragoriaeth.

Wedi'n gwreiddio'n gadarn yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, byddwn yn gweithredu fel sefydliad angor, gan gefnogi twf economaidd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Byddwn yn mynd i'r afael ag arferion cynaliadwy, gan ymgorffori cyfrifoldeb amgylcheddol ym mhob agwedd ar ein gweithrediadau er mwyn sicrhau dyfodol mwy gwyrdd.

Drwy bartneriaethau pwrpasol ac ymrwymiad i egwyddorion partneriaethau cymdeithasol, byddwn yn gwella arloesedd a chydweithio, gan sicrhau bod ein Coleg yn parhau i fod yn gadarn, yn wydn yn ariannol, ac yn barod i addasu i anghenion newidiol cymdeithas.

Gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn atgyfnerthu ein henw da fel sefydliad blaenllaw ar gyfer addysg a hyfforddiant, gan gael effaith ystyrlon ar fywydau ein dysgwyr a'r gymuned ehangach am genedlaethau i ddod

*Jacqui Kedward*
*Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr*

# YNGLŶN Â'R COLEG

Cafodd Coleg Sir Gâr ei greu yn 1985 a daeth yn sefydliad corfforaethol yn 1993. Yn 2013 daeth yn rhan o Grŵp Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Sector Deuol gyda Choleg Ceredigion yn dod yn is-gwmni i Goleg Sir Gâr yn 2017.

Lleolir y Coleg yn Ne-orllewin Cymru ac mae ganddo saith prif gampws yn Llanelli (Y Graig), Caerfyrddin (Pibwrlwyd a Ffynnon Job), Rhydaman, Llandeilo (Gelli Aur), Aberteifi ac Aberystwyth. Mae'r Coleg hefyd yn gartref i Ysgol Gelf Caerfyrddin, sydd â'i gwreiddiau'n dyddio nôl i 1854.

Mae gan y Coleg ystod gynhwysfawr ac eang o raglenni dysgu academaidd a galwedigaethol. Mae'r rhain yn amrywio o lefel cyn-mynediad i raglenni graddedig, gan ddarparu gwasanaeth i'r gymuned ddysgu gyfan. Mae'n cynnig addysg bellach, addysg oedolion a'r gymuned, addysg uwch, dysgu seiliedig ar waith a rhaglenni a gwasanaethau pwrpasol ar gyfer datblygu busnes. Mae'n darparu hefyd ar gyfer nifer fawr o ddisgyblion ysgol 14-16 oed sy'n mynychu'r Coleg neu'n cael eu dysgu gan staff y Coleg yn eu hysgolion.

Bydd ein Coleg bob amser yn rhoi anghenion y dysgwyr yn gyntaf a'n prif ffocws fydd datblygu dysgwyr uchelgeisiol, tra medrus, gwydn a chyflogadwy sy'n gwella eu hunan-barch ac sy'n hyderus i gymryd eu lle mewn cymdeithas fyd-eang.

Bydd ein Coleg yn ddiogel, yn gynhwysol ac yn ofalgar, gan wella lles dysgwyr a staff. Bydd ein gweithredoedd yn cael eu tanategu gan ein gwerthoedd craidd a'n hymddygiadau.

Bydd ein dysgwyr yn cael eu hysbrydoli gan arferion addysgu a dysgu arloesol sy'n darparu canlyniadau o ansawdd uchel er mwyn meithrin dilyniant. Bydd ein staff yn ymgysylltu â rhaglen datblygu gweithlu uchelgeisiol a fydd yn sbarduno gwelliant ar bob lefel.

Bydd ein cwricwlwm yn arloesol, wedi ei lywio gan anghenion cyflogwyr a datblygiad technoleg ddigidol er mwyn bodloni gofynion diwydiant byd-eang sy'n newid yn barhaus.

Bydd ein llwybrau cwricwlwm yn hwyluso dilyniant trwy Brifysgol Sector Deuol integredig ac yn ateb galw'r gweithlu rhanbarthol a bylchau sgiliau yn y dyfodol.

Bydd ein partneriaethau yn dod â buddion go iawn i'r dysgwyr ac yn hwyluso gwytnwch busnes.

Bydd ein perfformiad busnes yn cael ei danategu gan wytnwch ariannol, yn seiliedig ar ffrydiau incwm amrywiol, ac effeithlonrwydd gweithredol sy'n gwneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau.

Bydd ein Coleg yn parhau i fod wrth wraidd y gymuned, gan gyflawni ein dyletswydd ddinesig a chawn ein cydnabod fel Coleg dwyieithog yng Nghymru, sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig.

Bydd ein partneriaid a'n rhanddeiliaid yn cael eu cefnogi er mwyn sicrhau bod y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn adfywio ac yn ffynnu.

Bydd ein hystâd yn gynaliadwy a bydd adnoddau blaengar yn darparu amgylchedd rhagorol i ddysgwyr fod yn llwyddiannus yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

## GRŴP PCYDDS

Cafodd 'Grŵp PCYDDS' ei greu yn 2013 ac mae'n cynnwys Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant,

Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion – strwythur sector deuol. Mae'r Grŵp yn cyflwyno addysg bellach ac addysg uwch, gan ddarparu llwybrau dilyniant o lefel mynediad i astudiaethau doethuriaeth.

## Y DYFODOL

Ar ôl gweithredu ers dros ddegawd bellach, mae cyfle i Grŵp Y Drindod Dewi Sant ymateb i gyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru er mwyn darparu'r budd mwyaf posibl i'w ddysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned ar gyfer y dyfodol.

# EIN GWELEDIGAETH

Bydd y Coleg yn gwneud y canlynol:

- rhoi anghenion y dysgwr yn gyntaf;
- bod yn ddiogel, cynhwysol a gofalgar;
- byw yn ôl ein gwerthoedd a'n hymddygiadau;
- rhoi'r profiad gorau i'r dysgwyr, wedi'i gyfoethogi gan dechnoleg ddigidol;
- hwyluso datblygiad personol a dilyniant i ddysgwyr;
- annog chwilfrydedd a chreadigedd mewn addysgu a dysgu;
- datblygu cwricwlwm hyblyg, wedi'i lywio gan gyflogwyr;
- hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig;
- gweithredu rhaglen datblygu gweithlu uchelgeisiol;
- datblygu partneriaethau sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ddysgwyr a pherfformiad busnes;
- gwella ein gwytnwch ariannol a'n heffeithlonrwydd;
- cefnogi adfywio a ffyniant yn ein cymunedau; ac yn
- creu amgylchedd cynaliadwy er mwyn i ddysgwyr bod yn llwyddiannus



# EIN GWERTHOEDD

## PARCH

Byddwn ni:

- yn derbyn gwahaniaeth a rhoi cyfle i bawb ffynnu;
- yn empathig i anghenion ein gilydd;
- yn gwrtais a charedig i'n gilydd;
- yn gefnogol ac yn gofalu am ein gilydd;
- yn barod ac yn fodlon i ymgysylltu'n gadarnhaol.

## UNDOD

Byddwn ni:

- yn gweithredu fel un tîm gyda set o nodau cyffredin a chyfeiriad unedig;
- yn ystyriol o'n hymddygiad a'n hiaith, a'i effaith ar eraill;
- yn ddwyieithog o ran ein cyfathrebu ac ymgysylltu;
- yn integredig gyda'n cymuned a'n partneriaid;
- yn dryloyw ym mhob agwedd ar ein gwaith.

## PROFFESIYNOLDEB

Byddwn ni:

- yn onest ac yn ymddwyn gyda chywirdeb;
- yn cael ein hysgogi i ddarparu addysg a gwasanaeth cwsmer rhagorol;
- yn agored i dderbyn safbwyntiau gwahanol sy'n llywio ein penderfyniadau
- yn sefydliad dysgu â natur chwilfrydig;
- yn gynaliadwy o ran ein cynllunio a'n cyflwyno.

# CIPOLWG

INCWM
58 Miliwn

STAFF
754

SAFLEOEDD
7

9,900
DYSGWYR

3,600
LLAWN AMSER

6,300
RHAN AMSER

906
DYSGU SEILIEDIG AR WAITH (DSW)

# PROFIAD DYSGWYR

Dysgais i lawer oddi wrth Rob a'r tîm am fy nghamp a'm perfformiad trwy ddadansoddi a gwyddor ymarfer yn ogystal â defnyddio technoleg Techneg Hudl.

Yn ogystal daeth Rob i'n gwylio ni yn y pencampwriaethau cenedlaethol uwch ym Manceinion gan ddangos ei ymrwymiad i ni o ddifri.

**Emma Finucane**
**Pencampwr Olympaidd a chyn-fyfyriwr chwaraeon**
**Aelod o'r Rhaglen Perfformwyr Elitaidd**

Mae athrawon yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn meithrin perthnasoedd sy'n annog ac yn cynorthwyo dysgwyr i wneud cynnydd.

**Darnau o adroddiad Estyn**
**Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion**
**May 2022**

Mae'r coleg yn cyflwyno ystod eang o gyrsiau ac mae'n ymatebol i anghenion cyflogwyr a budd-ddeiliaid eraill.

**Darnau o adroddiad Estyn**
**Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion**
**May 2022**

Mae fy mhrofiad yng Ngholeg Sir Gâr wedi bod yn brofiad unwaith mewn oes a byddwn yn ei wneud eto mewn eiliad.

**Georgia Davies**
**BA mewn Cwnsela**

Cefais i gefnogaeth gan y coleg trwy gydol y broses ymgeisio. Fe wnaeth fy nhiwtor personol yn ystod y flwyddyn gyntaf, (Nina Theodoulou), gamu i mewn ac yn wir, aeth hi uwchben a thu hwnt. Cymerodd hi'r amser i ddeall system yr UD gyda fi, a gwnaeth ei hymrwymiad, ei hamynedd, a'i hanogaeth fyd o wahaniaeth - fyddwn i ddim wedi gallu ei wneud hebddi.

**Hannah Freckleton**
**Cyn-fyfyriwr Lefel A sydd bellach yn astudio ym Mhrifysgol Princeton, UDA a blwyddyn fwlch dan arweiniad prifysgol yng Nghosta Rica**

Mae dysgwyr yn elwa ar lwybrau dilyniant clir i'r lefel nesaf neu i ddysgu yn y gwaith, addysg uwch neu gyflogaeth.

**Darnau o adroddiad Estyn**
**Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion**
**May 2022**

Mae athrawon yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn meithrin perthnasoedd sy'n annog ac yn cynorthwyo dysgwyr i wneud cynnydd.

**Darnau o adroddiad Estyn**
**Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion**
**May 2022**

Mae'r grwpiau llai a'r gefnogaeth un-i-un wedi'i theilwra wedi bod yn bwysig iawn i mi ac erbyn y diwedd, roedd fy narlithwyr yn teimlo'n fwy fel ffrindiau. Rydw i nawr yn mynd i Loughborough i astudio gradd mewn roboteg.

**William Utting**
**HND Peirianneg Drydanol**

# PWRPAS Y RÔL

Mae'r Prif Weithredwr/Pennaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol a gweithredol ar draws Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, gan sicrhau dysgu rhagorol, gwytnwch ariannol a diwylliant cryf sy'n cael ei arwain gan werthoedd.  Fel aelodau allweddol o Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, mae'r Coleg yn chwarae rôl ganolog mewn system addysg sector deuol sy'n cefnogi dysgwyr o lefel mynediad hyd at astudiaeth ôl-raddedig.

Bydd deilydd y swydd yn arwain y cyfraniad hwn; gan hyrwyddo gweithio ar y cyd a gweithio mewn partneriaeth o fewn grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, datblygu

a meithrin cyfleoedd, ffyniant rhanbarthol, dwyieithrwydd a rhagoriaeth addysgol, gan sicrhau bod y Coleg yn parhau i fod yn unigryw, â'i wreiddiau yn y gymuned a'i ffocws ar y dyfodol.

Mae'r Prif Weithredwr/Pennaeth hefyd yn gwasanaethu fel Prif Swyddog Cyfrifyddu.



# MANYLEBSWYDD

## 1. ARWEINYDDIAETH STRATEGOL A GWELEDIGAETH

- Llunio cynllun strategol beiddgar a chydlynol sy'n cryfhau cyfraniad y Colegau tuag at sgiliau, datblygiad economaidd a lles cymunedol ar draws y rhanbarth.
- Arwain gydag ymdeimlad clir o bwrpas ac uchelgais o fewn grŵp PCYDDS drwy lens sector deuol, gan sicrhau bod y Coleg yn parhau i ddarparu cwricwlwm modern, sy'n canolbwyntio ar y dyfodol ac sy'n diwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a chymdeithas Cymru.
- Lleoli'r Coleg fel partner annatod o fewn ecosystem y Grŵp cyfan, gan weithio ar y cyd ar draws llwybrau AB-AU, mentrau rhanbarthol a'r genhadaeth strategol ehangach.
- Hyrwyddo a diogelu amgylchedd dwyieithog ffyniannus lle mae'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig wedi'u hymgorffori ar draws bywyd y sefydliad.
- Cryfhau hunaniaeth y Colegau fel sefydliad arloesol, cynhwysol sy'n cael ei ysgogi gan genhadaeth, sy'n cael effaith wirioneddol ar fywydau dysgwyr a'r gymuned ehangach.

## 2. ARWEINYDDIAETH ACADEMAIDD AC ARLOESEDD CWRICWLWM

- Sicrhau cwricwlwm o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n rhoi'r sgiliau, y gwytnwch a'r natur addasadwy sydd angen ar ddysgwyr mewn byd sy'n newid yn gyflym ac sy'n datblygu'n dechnolegol.
- Hyrwyddo addysgeg sy'n cyfuno profiad ymarferol, dysgu digidol ac ymgysylltu â chyflogwyr.
- Cynnal safonau academaidd cadarn, gan ddiogelu llwyddiant, cynhwysiant a dilyniant dysgwyr.
- Ehangu dysgu dwyieithog a chyfrwng Cymraeg, gan gefnogi datblygiad staff a sicrhau bod y Colegau'n cyfrannu'n ystyrlon at bolisi iaith cenedlaethol a disgwyliadau cymunedol.
- Ysgogi arloesedd yn y gwaith o ddarparu prentisiaethau, llwybrau technegol lefel uwch a darpariaeth a gynlluniwyd gan gyflogwyr sy'n cefnogi nodau economaidd a chymdeithasol.

## 3. POBL, DIWYLLIANT AC ARWEINYDDIAETH

- Meithrin diwylliant agored, parchus a chynhwysol lle mae staff a myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u bod yn gallu ffynnu.
- Darparu arweinyddiaeth weladwy ar draws pob campws, gan annog ymgysylltu ystyrlon a meithrin ymdeimlad o berthyn.
- Arwain y Tîm Gweithredol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gydag eglurder, empathi a disgwyliadau uchel — gan sicrhau bod atebolrwydd a gweithio ar y cyd yn atgyfnerthu ei gilydd.
- Hyrwyddo datblygiad proffesiynol, gallu digidol a thwf arweinyddiaeth ar bob lefel, gan adleisio ffocws ehangach y Grŵp ar ddatblygu pobl hyderus sy'n gallu addasu.
- Modelu arweinyddiaeth foesegol a hyrwyddo lles fel blaenoriaeth graidd i'r sefydliad.

## 4. ARWEINYDDIAETH BUSNES, LLYWODRAETHU A CHYDYMFFURFIO

- Gwasanaethu fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan sicrhau cynllunio ariannol cadarn, rheoli risg a dyrannu adnoddau.
- Cynnal gwytnwch sefydliadol a chynaliadwyedd hirdymor, gan arallgyfeirio ffynonellau incwm a sicrhau stiwardiaeth ddoeth o arian cyhoeddus.
- Goruchwylio ystadau, seilwaith digidol a phrosiectau cyfalaf sy'n gwella profiad y dysgwr ac yn cefnogi twf strategol.
- Sicrhau bod strwythurau llywodraethu yn dryloyw, yn wybodus ac yn effeithiol, wedi'u hategu gan ddata ac adrodd o ansawdd uchel.
- Cynnal diogelu cadarn, sicrhau ansawdd, iechyd a diogelwch a chydymffurfiaeth reoleiddiol.

## 5. CENHADAETH DDINESIG, EFFAITH GYMUNEDOL A PHARTNERIAETHAU

- Gweithredu fel llysgennad cymhellol i'r Colegau, gan adeiladu partneriaethau sy'n sbarduno buddion cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a thu hwnt.
- Ymgysylltu'n hyderus â'r llywodraeth, cyflogwyr, llunwyr polisi a gwasanaethau cyhoeddus i gryfhau rôl y Colegau wrth gyflawni blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol.
- Arwain cyfraniadau'r Colegau at ehangu cyfranogiad, dysgu gydol oes, datblygiad diwylliannol a grymuso cymunedol.
- Cryfhau perthnasoedd ag ysgolion, partneriaid diwydiant, awdurdodau lleol a mentrau sgiliau rhanbarthol, gan sicrhau bod y Colegau'n parhau i fod yn ymatebol, yn ddylanwadol ac yn ddibynadwy.
- Cefnogi rhyngwladoli, arloesedd digidol a mentrau dysgu cydweithredol ar draws y Grŵp lle bo'n briodol.





# MANYLEB YR UNIGOLYN

## PROFIAD

- Profiad o arweinyddiaeth uwch mewn sefydliad addysgol mawr neu sefydliad cymhleth tebyg, a/neu bartneriaeth aml-sefydliadol.
- Llwyddiant profedig mewn gwelliant sefydliadol, newid diwylliannol a chyflawni strategol.
- Profiad amlwg o arweinyddiaeth ariannol, rheoli risg a stiwardiaeth adnoddau.
- Profiad o weithio gyda chyrff gwleidyddol, cyrff llunio polisi a chyrff rheoleiddio yng Nghymru neu gyd-destunau datganoledig tebyg.
- Gallu profedig i lunio partneriaethau neu berthnasoedd hynod effeithiol gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid allweddol ar lefel ranbarthol neu genedlaethol.
- Dealltwriaeth o dirwedd addysg drydyddol, sector deuol a llwybrau o AB i AU.
- Profiad o arwain y gwaith o ddatblygu cwricwlwm, gwella ansawdd ac arloesi sy'n troi o gwmpas y dysgwr.
- Mae profiad o amgylcheddau addysgol dwyieithog neu ddiwylliannol unigryw yn ddymunol iawn.

## SGILIAU A PHRIODOLEDDAU

- Arweinyddiaeth ysbrydoledig, weladwy gyda'r gallu i uno timau amrywiol sy'n rhannu pwrpas ac ymrwymiad cyffredin i ddatblygu system addysg drydyddol yng Nghymru
- Sgiliau cyfathrebu a dylanwadu cryf, gyda hygrededd ar draws sectorau a chymunedau.
- Ymrwymiad cryf i gynhwysiant, lles, cynaliadwyedd a chydraddoldeb.
- Meddyliwr strategol gyda'r gallu i lywio cymhlethdodau a rhagweld heriau'r dyfodol.
- Penderfynwr hyderus sy'n cydbwyso tystiolaeth, risgiau a gwerthoedd.
- Emosiynol ddeallus, gwydn a digynnwrf — yn enwedig yn ystod cyfnodau o newid.
- Hyddysg yn ddigidol gyda gwerthfawrogiad o dechnolegau sy'n dod i'r amlwg ym myd addysg.

## CYMWYSTERAU

- Addysg lefel-radd (hanfodol).
- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus sylweddol (hanfodol).
- Cymhwyster arweinyddiaeth neu ôl-raddedig (dymunol).
- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg, neu barodrwydd i ddatblygu hyn i lefel briodol.

## DIOGELU A GWERTHOEDD

Mae'r Prif Weithredwr/Pennaeth yn gyfrifol am hyrwyddo amgylchedd diogel a meithringar lle mae lles dysgwyr yn hollbwysig.  Rhaid iddo/iddi gynnal gwerthoedd y Colegau, cefnogi diwylliant teg a chynhwysol, ac ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy ar draws arfer sefydliadol.

***Strategaeth y Coleg 2022-2026***

***Gwefan Coleg Sir Gâr / Coleg Ceredigion***

***Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant***

***Adroddiad Estyn Coleg Sir Gâr / Coleg Ceredigion***



# SUT I WNEUD CAIS

## TELERAU

**Tâl**

Mae'r cyflog ar gyfer y swydd hon yn gystadleuol iawn, ac yn dibynnu ar brofiad.

**Gwyliau Blynyddol**

Yr hawl i wyliau blynyddol yw 37 diwrnod y flwyddyn, gyda gwyliau cyhoeddus cydnabyddedig ychwanegol a diwrnodau cau.

**Cynllun Pensiwn**

Bydd gan ddeilydd y swydd hon fynediad at Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu Gynllun Pensiwn Athrawon.

**Gwiriadau**

Mae'r penodiad hwn yn amodol ar eirdaon cyn-gyflogaeth boddhaol a sicrhad gwiriad DBS.

**Llinell amser**

Mae'r llinell amser ganlynol yn ddangosol a dylid ei defnyddio fel canllaw yn unig.  Mae'n bosibl y gall newid.

| Proses | Dyddiad |
|---|---|
| Ceisiadau'n Cau | 9:00am Dydd Llun 11 Chwefror 2026 |
| Cyfweliadau gyda Dodd Partners | Wythnos yn dechrau 16 Chwefror 2026 |
| Cyfweliadau gyda Choleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion | 6 Mawrth 2026 |

Mae Dodd Partners yn ymgymryd â'r broses recriwtio ar ran Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion. Os dymunwch wneud cais am y swydd hon, cyflwynwch y canlynol:

- Llythyr eglurhaol sy'n tynnu sylw at eich addasrwydd a sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf Profiad a nodir ym Manyleb yr Unigolyn, ynghyd â manylion eich cyflog presennol.
- CV cynhwysfawr yn nodi hanes eich gyrfa, gan gynnwys cyfrifoldebau a chyflawniadau.
- Dylid e-bostio pob cais at Dodd Partners cyn gynted â phosibl a heb fod yn hwyrach na 9am ddydd Mercher, 11eg Chwefror 2026, i contactus@doddpartners.com, wedi'i farcio'n glir â'r rhif cyfeirnod DP3150.

Os hoffech drafod y rôl yn anffurfiol, ffoniwch John Dodd ar 07545 431 848 neu 01244 738 450. Fel arall, e-bostiwch: johndodd@doddpartners.com